

# Materion Gwasanaeth Cwsmeriaid

## Cymorth Addysg

| Pan fyddwch chi'n  | Mi fyddwn ni'n   |
|--|--|
| Gwneud cais am le mewn ysgol ganol y flwyddyn*                 | <p>Ystyried eich cais ac yn cynnig yr ysgol fwyaf priodol yn seiliedig ar y lleoedd sydd ar gael, y lleoliad, iaith, ffydd a phellter i chi.</p> <p>Byddwch yn derbyn ymateb o fewn 15 diwrnod ysgol ac yn cael y cyfle i apelio os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad</p>   |
| Gwneud cais am le mewn ysgol i gychwyn ym mis Medi 2014        | <p>Ystyried eich cais ac yn cynnig eich dewis uchaf posibl. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ffactorau megis y pellter o'ch cartref i'r ysgol, a'ch dewis iaith a ffydd.</p> <p>Byddwch yn derbyn ymateb drwy'r post -</p> <p>Ysgol Uwchradd 1 Mawrth 2014<br/>Dosbarth derbyn ac iau 21 Mawrth 2014<br/>Dosbarth meithrin 2 Mai 2014</p> |
| Apelio yn erbyn penderfyniad ar leoedd ysgol                   | Gwrando ar eich apêl drwy banel apeliadau annibynnol o fewn 30 diwrnod gwaith  |
| Gwneud cais am gludiant ysgol ganol y flwyddyn*                | Ystyried eich cais yn erbyn y meini prawf a gyhoeddwyd sy'n cynnwys llwybrau peryglus, pellter, ffydd ac iaith. Byddwch yn derbyn ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith  |
| Cysylltu â ni am Gefnogaeth Llywodraethwyr, Cyngor neu Ganllaw | Byddwn yn sicrhau bod Swyddog mewn maes priodol yn cysylltu efo chi yn uniongyrchol o fewn 3 diwrnod gwaith i ddelio â'ch ymholiad   |

---

\* Canol blwyddyn - ceisiadau am gludiant ysgol/ lle mewn ysgol a wnaed ar ôl dechrau tymor yr hydref (h.y. y tu allan i'r amserlen derbyn arferol i ysgolion).

Unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym ni?  
Rhowch wybod i ni os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud rhywbeth o'i le neu wedi gwneud camgymeriad.  
Byddem hefyd yn hoffi gwybod os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud rhywbeth yn dda, neu os oes gennych chi sylw neu syniad ynghylch sut gallem ni wneud rhywbeth yn wahanol neu'n well.

Rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at [eich.llais@sirddinbych.gov.uk](mailto:eich.llais@sirddinbych.gov.uk) neu ffonio 01824 706100.  
Neu fe allwch chi lenwi ffurflen ar ein gwefan yn [www.sirddinbych.gov.uk](http://www.sirddinbych.gov.uk)

